# Archwiliadau Cenedlaethol Amddiffyn Plant

Heddlu Dyfed-Powys
1-8 Hydref 2014

February 2015

© HMIC 2015

ISBN: 978-1-78246-714-4

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

# Rhagair

Mae pob plentyn yn haeddu cael ei fagu mewn amgylchedd diogel, gyda gofal ac wedi ei ddiogelu rhag niwed. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ffynnu mewn teuluoedd cariadus ac yn tyfu i fod yn oedolion heb niwed. Yn anffodus, mae gormod o blant yn cael eu cam-drin neu amddifadu gan y rhai sy’n gyfrifol am eu gofal; weithiau mae angen eu hamddiffyn rhag oedolion eraill y maent yn dod i gysylltiad â nhw ac mae rhai weithiau’n mynd ar goll, neu yn treulio amser mewn amgylcheddau, neu gyda phobl, sy’n niweidiol iddynt.

Er ei fod yn gyfrifoldeb ar bawb i ofalu am blant bregus, mae gan heddluoedd, mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill, rôl benodol wrth amddiffyn plant a sicrhau y bodlonir eu hanghenion.

Amddiffyn plant yw un o’r tasgau pwysicaf mae’r heddlu yn cyflawni. Dim ond yr heddlu all ymchwilio i droseddau a amheuir ac arestio cyflawnwyr, ac mae ganddynt rôl arwyddocaol o ran monitro troseddwyr rhyw. Mae gan swyddogion yr heddlu'r pŵer i gymryd plentyn sydd mewn perygl i fan diogel, neu i geisio gorchymyn i gyfyngu cyswllt troseddwr gyda phlant. Mae gan wasanaeth yr heddlu hefyd rôl arwyddocaol o ran gweithio gydag asiantaethau eraill i ddiogelu’r plentyn a’i les, yn y tymor hirach.

Yn aml mae swyddogion yr heddlu yn gweld a chlywed popeth yn y gymuned wrth iddynt gyflawni eu tasgau dyddiol ac yn dod ar draws plant all fod wedi eu hamddifadu neu gam-drin. Rhaid iddynt fod yn effro i, a nodi, plant allai fod dan risg.

I amddiffyn plant yn dda, rhaid i’r heddlu gyflawni ei holl ddyletswyddau craidd i safon uchel. Rhaid i swyddogion yr heddlu siarad â phlant, gwrando arnynt a deall eu hofnau a phryderon. Rhaid i’r heddlu hefyd weithio’n dda gydag asiantaethau eraill i sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn syrthio trwy’r rhwyd ac i osgoi ymyrryd yn ormodol a dyblygu ymdrech.

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn archwilio gwaith amddiffyn plant pob un o heddluoedd Cymru a Lloegr. Bwriedir i’r adroddiadau ddarparu gwybodaeth i’r heddlu, comisiynydd yr heddlu a throseddu (PCC) a’r cyhoedd ar ba mor dda mae plant wedi eu hamddiffyn a’u hanghenion wedi eu bodloni, ac i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

# Cynnwys

**Rhagair** ... **2**

**1. Cyflwyniad** ... **4**

**2. Cefndir** ... **4**

**3. Cyd-destun ar gyfer yr heddlu** ... **5**

**4. Rôl yr heddlu mewn amddiffyn plant** ... **6**

**5. Canfyddiadau: profiadau, cynnydd a chanlyniadau ar gyfer plant sydd angen help ac amddiffyniad** ... **8**

Cyswllt cychwynnol ... 8

Asesiad a help ... 10

Ymchwiliad ... 12

Gwneud penderfyniadau ... 15

Oedolyn dibynadwy ... 16

Rheoli'r rhai sy'n cyflwyno risg i blant ... 17

Cadw gan yr heddlu ... 19

**6. Canfyddiadau: arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu** ... **22**

**7. Canfyddiadau: Effeithiolrwydd cyffredinol yr heddlu a'i ymateb i blant sydd angen help ac amddiffyn** ... **26**

**8. Argymhellion** ... **28**

Ar unwaith ... 28

O fewn tri mis ... 28

O fewn chwe mis ... 29

**9. Camau nesaf** ... **30**

**Atodiad A Methodoleg yr archwiliad amddiffyn plant** ... **31**

**Atodiad B Geirfa** ... **34**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o gasgliadau archwiliad ar wasanaethau amddiffyn plant yn Heddlu Dyfed-Powys a gynhaliwyd yn Hydref 2014. Mae'r adroddiad yn cynnwys naw pennod mewn tri phrif ddarn. Mae'r rhan gyntaf yn darparu gwybodaeth ar y cefndir i'r archwiliad ac i Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r ail ran yn canolbwyntio ar gasgliadau'r archwiliad, ac mae'r drydedd ran yn edrych tua'r dyfodol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

# 2. Cefndir

Rhwng Hydref 2011 a Mawrth 2013, bu HMIC yn cymryd rhan, ar sail amlasiantaethol, mewn nifer o archwiliadau amddiffyn plant. Ynghyd â thystiolaeth o gryfderau ac arfer effeithiol, roedd yr archwiliadau hyn yn amlygu meysydd i'w gwella, yn arbennig: ansawdd ymchwiliadau ar y cyd; nodi risg; delio â cham-drin domestig; a chadw plant yn y ddalfa.

I ddelio â'r materion hyn, penderfynodd HMIC gynnal rhaglen o archwiliadau ar asiantaethau unigol ar gyfer holl heddluoedd Cymru a Lloegr. Nodau'r rhaglen archwilio yw i:

- asesu pa mor effeithiol yw heddluoedd o ran diogelu plant sydd dan risg;
- gwneud argymhellion i heddluoedd ar gyfer gwella arferion amddiffyn plant;
- amlygu arferion effeithiol o ran gwaith amddiffyn plant; ac
- ysgogi gwelliannau yn arferion amddiffyn plant lluoedd.

Mae ffocws yr archwiliad ar y canlyniadau ar gyfer, a phrofiadau, plant sy'n dod i gyswllt â'r heddlu ble ceir pryderon am eu diogelwch neu les.

Mae'r fethodoleg archwilio yn adeiladu ar archwiliadau amlasiantaethol cynharach. Mae'n cynnwys hunanasesiad ac archwiliadau achosion a gyflawnwyd gan yr heddlu, ac archwiliadau achos a chyfweliadau gyda swyddogion a staff yr heddlu a chynrychiolwyr o asiantaethau partner, a gyflawnwyd gan HMIC.[1]

[1] Ceir manylion sut fyddwn ni'n cyflawni'r archwiliadau hyn yn Atodiad A.

# 3. Cyd-destun ar gyfer yr heddlu

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys tua 1,806 o staff. Mae'r gweithlu'n cynnwys:

- 1,164 o swyddogion yr heddlu;
- 501 o staff yr heddlu; a
- 141 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu[2].

Mae'r heddlu yn gwasanaethu poblogaeth o dros 488,000 ar draws dros hanner tirfas Cymru. Y prif drefi yw Llanelli, gyda phoblogaeth o tua 35,000, a Chaerfyrddin sydd â phoblogaeth o tua 16,000. Mae oddeutu 30 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ac mae'r heddlu yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Mae pedwar awdurdod lleol yn ardal Heddlu Dyfed-Powys: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Maent yn gyfrifol am amddiffyn plant o fewn eu ffiniau. Mae gan yr heddlu bedair is-adran plismona, ac mae'r rhain yn gydffiniol â'r pedwar ardal awdurdod lleol.

Yn Heddlu Dyfed-Powys, arweinir gwasanaethau i ddiogelu pobl fregus gan dditectif uwch-arolygydd, gyda chefnogaeth ditectif brif arolygydd a ditectif arolygydd. Mae ganddynt gyfrifoldeb dros yr uned amddiffyn pobl fregus (PVP) canolog sy'n cynnwys:

- uned atgyfeirio ganolog;
- uned troseddwyr rhyw a threisgar;
- cydlynu trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA);
- cydlynu ymgysylltiad yr heddlu gyda chynadleddau amlasiantaeth asesu risg (MARAC).

Maent hefyd yn gyfrifol am bedair uned amddiffyn y cyhoedd (PPU), un ym mhob is-adran o'r heddlu. Mae'r PPUs yn gyfrifol am ymchwilio i gam-drin plant, cam-drin oedolion bregus a cham-drin domestig.

Ar adeg yr archwiliad yn Hydref 2014, roedd Heddlu Dyfed-Powys yn trafod yn weithredol gyda'i asiantaethau partner i sefydlu un canolfan diogelu amlasiantaethol (MASH) i gwmpasu ardal gyfan yr heddlu.

---

[2] *Police workforce, England and Wales*, 30 Medi 2014, Swyddfa Gartref, Ionawr 2015, ar gael ar y ddolen hon: www.gov.uk/government/statistics/police-workforce-england-and-wales-30-september-2014

# 4. Rôl yr heddlu mewn amddiffyn plant

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am amddiffyn plant yng Nghymru. Mae'r system amddiffyn plant yng Nghymru yn debyg i'r system yn Lloegr.

Dan Ddeddf Plant 1989, mae gwasanaeth yr heddlu, yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau partner megis gwasanaethau gofal cymdeithasol plant awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau addysg, yn gyfrifol am wneud ymholiadau i ddiogelu a sicrhau lles unrhyw blentyn o fewn ei ardal sy'n dioddef (neu'n debygol o ddioddef) niwed arwyddocaol.[3] Mae dyletswydd ar yr heddlu i atgyfeirio unrhyw blentyn mewn angen y byddant yn ei ganfod wrth gyflawni eu gwaith at yr awdurdod lleol.[4] Amlinella canllaw Llywodraeth Cymru[5] sut ddylid arfer y dyletswyddau a chyfrifoldebau hyn.

Mae'r rolau heddlu penodol a gyflwynir yn y canllaw yn ymwneud â:

- nodi plant allai fod dan risg o gam-drin ac esgeulustod;
- ymchwilio i droseddau honedig yn erbyn plant;
- eu gwaith gydag asiantaethau eraill, yn arbennig y gofyniad i rannu gwybodaeth sy'n berthnasol i faterion amddiffyn plant; ac
- arfer pwerau argyfwng i amddiffyn plant.

Dylai pob swyddog yr heddlu ac aelod o staff yr heddlu ddeall ei ddyletswydd i amddiffyn plant yn rhan o'u busnes dyddiol. Mae'n allweddol fod swyddogion sy'n mynd i gartrefi pobl ar unrhyw fater plismona yn cydnabod anghenion plant a welant. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fyddant yn delio â cham-drin domestig a digwyddiadau eraill ble gallai trais fod yn ffactor. Mae'r ddyletswydd i amddiffyn plant yn ymestyn i blant a gedwir yn nalfa'r heddlu.

---

[3] Adran 47 Deddf Plant 1989.

[4] Mae Adran 17 Deddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar yr awdurdod lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn eu hardal y credir i fod 'mewn angen'. Gallai'r heddlu ddod o hyd i blant sydd 'mewn angen' pan fyddant yn mynychu digwyddiadau a dylent gyfeirio'r achosion hyn at yr awdurdod lleol. Mae plentyn 'mewn angen' os yw ef neu hi yn anabl, yn annhebygol o gael y cyfle i gyflawni safon resymol o iechyd neu ddatblygiad, neu os yw ei iechyd neu ddatblygiad yn debygol o gael ei amharu heb ddarpariaeth gwasanaeth yr awdurdod lleol.

[5] *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004,* Llywodraeth Cymru, Chwefror 2007 (diweddariad diwethaf), ar gael gan: http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/safeguardingunder2004act/?lang=cy

Mae nifer o dimau ar draws heddluoedd yn perfformio rolau pwysig o ran amddiffyn plant rhag niwed, yn cynnwys y rhai sy'n dadansoddi cyfrifiaduron i sefydlu a oes delweddau anweddus o blant arnynt, ac eraill sy'n rheoli troseddwyr rhyw cofrestredig a phobl beryglus sy'n byw mewn cymunedau. Rhaid iddynt ymweld yn rheolaidd â throseddwyr rhyw, sefydlu natur risg y troseddwyr hyn ar hyn o bryd a sefydlu unrhyw fesurau angenrheidiol i liniaru'r risg honno.

Er mwyn sicrhau bod asiantaethau yn cydweithio i gadw plant yn ddiogel ac i ofalu am eu lles, rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu bwrdd lleol diogelu plant (LSCB)[6]. Bydd y trefniadau hyn yn newid yng Nghymru yn Ebrill 2016 pan fydd yr LSCBs sy'n gweithredu ymhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol unigol yng Nghymru yn cael eu disodli gan chwe bwrdd diogelu plant[7]. I baratoi ar gyfer y newid hwn, mae bwrdd rhanbarthol diogelu plant yn gweithredu ar gyfer ardal Heddlu Dyfed-Powys, sy'n cwmpasu pob un o bedair ardal weinyddol yr awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob asiantaeth (yn cynnwys yr heddlu). Maent yn hyrwyddo gweithgareddau diogelu, sicrhau bod amddiffyn plant yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar draws eu hardal, ac yn dal ei gilydd yn atebol.

---

[6] Mae gan LSCBs ddyletswydd statudol, dan y Ddeddf Plant 2004, i gydlynu sut mae asiantaethau yn cydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac i sicrhau bod trefniadau diogelu yn effeithiol. Sefydlir swyddogaethau LSCBs yng Nghymru yn y Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006, 2006 Rhif 1705 (W. 167), ar gael o: www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2006/1705/made/welsh. Mae'r *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*, Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008, yn darparu canllaw ac yn hysbysu arferion diogelu plant ar gyfer LSCBs yng Nghymru. Mae'r gweithdrefnau ar gael ar: www.awcpp.org.uk/cy/hafan/protocolau-ar-gyfer-cymru-gyfan/

[7] Rhan 7 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, 2014 anaw 4, ar gael o: www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori tan 2 Chwefror 2015 ar y trefniadau ar gyfer gweithredu Rhan 7 y Ddeddf. Mae gwybodaeth bellach am yr ymgynghoriad hwn ar gael gan: http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/part7/?lang=cy

# 5. Canfyddiadau: profiadau, cynnydd a chanlyniadau ar gyfer plant sydd angen help ac amddiffyniad

Yn ystod yr archwiliad, fe archwiliodd Heddlu Dyfed-Powys 33 o achosion yn unol â'r meini prawf a ddarparwyd gan HMIC. Er na ofynnwyd i'r heddlu raddio pob un o'r 33 o achosion a hunanaseswyd yn unigol, ystyriwyd arferion i fod yn dda gan aseswyr yr heddlu mewn 21 o'r achosion, yn ddigonol mewn 6 achos ac yn annigonol mewn 6 achos.[8] Adolygwyd pob un o'r 33 achos a hunanaseswyd gan arolygwyr. Fe wnaethant ystyried 12 o achosion i fod yn dda, 12 yn ddigonol a 9 yn annigonol. Ar y cyfan, fe nododd yr arolygwyr fwy o wendidau mewn arfer na'r hunanaseswyr. Dewisodd yr arolygwyr 30 achos arall ble nodwyd bod plant dan risg a'u harchwilio. Aseswyd wyth i fod yn dda, 11 yn ddigonol ac 11 yn annigonol.

## Cyswllt cychwynnol

Yn y rhan fwyaf o'r achosion a archwiliwyd gan arolygwyr, fe ymatebodd yr heddlu yn brydlon i ddigwyddiadau ble codwyd pryderon penodol a chlir ynghylch plant. Mynychodd yr heddlu yn brydlon, cyflawnodd amrywiaeth o dasgau rhagarweiniol megis sicrhau diogelwch uniongyrchol plant, sicrhau tystiolaeth a gwneud asesiad ynghylch y ffordd orau i symud ymlaen. Roedd yn glir o'r achosion a archwiliwyd fod staff rheng flaen yn deall bregusrwydd a'u cyfrifoldebau i ddiogelu. Roeddynt yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i ddiogelu plant a sicrhau y bodlonwyd eu hanghenion.

Pan oedd angen gweithredu pellach, megis ymweliad ar y cyd gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, neu ble roedd angen lluniau o anafiadau diweddar neu archwiliadau meddygol, trefnwyd hyn yn gyflym. Yn amlach na pheidio, cyflawnodd y swyddogion ymholiadau cychwynnol prydlon a thrylwyr a defnyddio eu pwerau arestio ble roedd angen. Er enghraifft:

- yr ymateb i adroddiad o ferch pedair oed a welwyd yn crwydro'r strydoedd wedi gwisgo'n amhriodol. Mynychodd swyddogion ar unwaith, canfod y ferch a mynd â hi i le diogel. Fe wnaethant archwilio'r amgylchiadau ac ymchwilio i, gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, bryderon am esgeuluso plentyn a cham-drin emosiynol;

[8] Sefydlir y mathau o achosion a methodoleg archwilio yn Atodiad A

- y camau a gymerwyd pan alwyd yr heddlu i dŷ ble daethpwyd o hyd i ddau o blant, tair a saith oed, ar eu pen eu hunain i lawr y grisiau tra bod eu tad yn cysgu i fyny'r grisiau, gyda thybiaeth ei fod yn feddw. Cymerodd yr heddlu'r ddau blentyn o'r cartref a chanfod cleisiau ar y plentyn iau. Tynnwyd lluniau o'r anafiadau, gofynnwyd cwestiynau sensitif i'r plentyn hŷn ynglŷn â sut y'i hachoswyd ac arestio'r tad ar unwaith; ac
- y camau a gymerwyd mewn achos yn ymwneud â phryderon a fynegwyd gan fam ynglŷn â'i merch 13 oed oedd wedi anfon lluniau anweddus at, ac wedi cael sgyrsiau gyda, dynion hŷn ar ei ffôn symudol. Ymgysylltodd y swyddogion yn gyflym gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Cynhaliwyd ymweliad ar y cyd o fewn 24 awr i'r alwad, atafaelwyd tystiolaeth ar gyfer archwiliad fforensig a chyfwelwyd y ferch.

Canfu'r arolygwyr fod staff yn ystafell reoli'r heddlu yn effro i risg a bregusrwydd ac yn gwybod beth i'w wneud, yn arbennig achosion unigolion ar goll mewn risg uchel. Roedd enghreifftiau da o staff yr ystafell reoli'n gweithredu'n fuan, yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl ac yn pasio'r achos ymlaen i swyddogion rheng flaen neu PPU i ddelio â'r mater. Roedd rhaglen hyfforddi reolaidd ar waith i ddiweddaru staff yr ystafell reoli ar ddatblygiadau'r heddlu a chenedlaethol, yn cynnwys diogelu.

Fodd bynnag, nid oedd 'lluman' gan yr heddlu ar gofnodion ar gyfer plant oedd yn destun cynllun amddiffyn plentyn (h.y. plentyn sydd eisoes wedi ei nodi fel un dan risg ac mae cynllun wedi ei sefydlu i'w amddiffyn). O ganlyniad, efallai na fydd staff yr ystafell reoli a swyddogion rheng flaen yn mynychu digwyddiad yn ymwybodol ar unwaith os oes cynllun amddiffyn ar gyfer plentyn.

Yn gyffredinol, fe wiriodd yr heddlu oedd yn mynychu digwyddiad o gam-drin domestig fod plant yn ddiogel ac yn iach a sicrhau eu diogelwch uniongyrchol. Fodd bynnag, mewn chwech o'r achosion o gam-drin domestig a aseswyd gan yr arolygwyr, nid oedd ymddygiad nac ymarweddiad y plentyn wedi ei gofnodi. Mae ymarweddiad plentyn, yn arbennig yn yr achosion hynny ble mae plentyn yn rhy ifanc i siarad â swyddogion, neu ble gallai gwneud hynny gyda rhiant yn bresennol gyflwyno risg, yn darparu gwybodaeth bwysig am effaith y digwyddiad ar y plentyn. Dylai hysbysu'r asesiad cychwynnol o anghenion y plentyn ac a ddylid atgyfeirio at wasanaethau gofal cymdeithasol plant.

**Argymhellwn y dylai Heddlu Dyfed-Powys, a hynny o fewn chwe mis, gymryd camau i sicrhau bod yr holl swyddogion a staff sy'n delio â phryder am blant yn ymwybodol o gynlluniau amddiffyn plant a bod yr wybodaeth hon yn hysbysu eu hymatebion ac asesiadau risg.**

**Rydym yn argymell, o fewn tri mis, fod Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau bod swyddogion yn cofnodi eu harsylwadau o ymddygiad ac ymarweddiad plentyn bob adeg mewn cofnodion digwyddiadau cam-drin domestig, er mwyn gwneud gwell asesiad o anghenion y plentyn.**

## Asesiad a help

Mae gan yr heddlu uned atgyfeirio ganolog (CRU) sy'n delio â phob atgyfeiriad gan swyddogion yr heddlu, gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac asiantaethau eraill mewn achosion ble mae pryderon o gam-drin plant neu oedolion. Y CRU yw'r pwynt ffocws ar gyfer cyfnewid gwybodaeth. Mae'n rheoli symiau mawr o wybodaeth, yn bennaf yn gyflym ac effeithiol.

Deliwyd yn brydlon ag ymholiadau cychwynnol ac yn aml fe gynhaliwyd trafodaethau strategaeth[9] o fewn awr i dderbyn cyfeiriad, pan oedd staff arbenigol ar ddyletswydd. Roedd arolygwyr yn falch o weld goruchwyliaeth gadarn o bob achos a atgyfeiriwyd at y CRU gan oruchwylwyr amddiffyn plant cymwysedig a phrofiadol. Fe nodwyd pryderon cam-drin plant yn gyflym ac roedd hyn yn hybu'r ymateb ymchwilio a diogelu cynnar. Dywedwyd wrth arolygwyr fod sefydlu'r CRU wedi hwyluso rhywfaint o'r pwysau ar ymchwilwyr cam-drin plant yn ystod camau cynnar asesiad a diogelu ac wedi eu galluogi i roi mwy o sylw i ymchwiliadau.

Roedd yr holl bump achos a archwiliwyd gan arolygwyr lle adroddwyd bod plant ar goll oddi adref wedi'ui hasesu i fod yn ddigonol. Roedd yr ymateb cychwynnol gan atebwyr galwadau a staff rheng flaen i adroddiadau o blant ar goll yn aml yn dda, aseswyd risgiau yn gynnar a chymryd camau cychwynnol yn brydlon i ddod o hyd i'r plentyn. Fodd bynnag, roedd llai o dystiolaeth o weithredu dilynol wedi'r adroddiad cychwynnol a gwaith tymor hirach i ddiogelu'r plentyn. Mewn un achos, daethpwyd o hyd i ferch 15 oed a adroddwyd i fod ar goll gan ei rhiant maeth yn fuan mewn parti. Er y cynhaliwyd trafodaeth strategaeth yn Ebrill 2014, roedd wedi ei hadrodd i fod ar goll ar dri achlysur pellach ers hynny ond, nid oedd unrhyw dystiolaeth o gynllun tymor hirach i'w hamddiffyn.

Roedd gan arolygwyr hefyd bryderon nad oedd y cyswllt rhwng plentyn oedd ar goll o'r cartref a'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn (CSE) wedi ei ystyried yn gyffredinol gan staff. Er enghraifft:

- adroddwyd bod merch 14 oed ar goll 7 o weithiau gan ei mam. Roedd y ferch wedi ei chanfod yn flaenorol mewn tŷ gyda dynion hŷn. Er i'r fam alw'r heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn fynych i gael help, nid oedd unrhyw gynlluniau amlasiantaethol tymor hirach ar waith i ddiogelu'r ferch rhag y risgiau amlwg o CSE;

[9] Ble bynnag y ceir achos rhesymol i amau fod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed arwyddocaol, dylid cael trafodaeth strategaeth yn cynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol plant awdurdod lleol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd a chyrff eraill megis yr asiantaeth gyfeirio. Gallai hyn fod ar ffurf cyfarfod amlasiantaethol neu alwadau ffôn ac efallai y bydd angen mwy nag un drafodaeth. Gall trafodaeth strategaeth ddigwydd yn dilyn cyfeiriad neu ar unrhyw adeg arall, yn cynnwys yn ystod y broses asesu. *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004,* Llywodraeth Cymru, Chwefror 2007 (diweddariad diwethaf), pennod 8, paragraffau 8.77 – 8.87.

- daethpwyd o hyd i ferch 15 oed yn byw mewn gofal maeth, oedd wedi ei hadrodd ar goll ar 12 achlysur ers 2012, gyda gŵr 38 oed yr oedd wedi bod mewn perthynas rywiol ag ef. Roedd wedi siarad yn flaenorol am berthnasau rhywiol gyda dynion hŷn. Fodd bynnag, nid oedd cofnod ar y system i amlygu’r risg blaenorol o CSE; ac

- yn yr achos hwn ac achos pellach yn ymwneud â merch 15 oed mewn gofal maeth oedd hefyd wedi ei hadrodd ar goll yn rheolaidd, roedd cofnodion yr heddlu yn disgrifio’r merched fel rhai oedd yn ‘chwilio am sylw’. Roedd y disgrifiad hwn yn eu hamlygu i risgiau pellach o gamfanteisio rhywiol.

Pan ystyrir fod plentyn dan risg o niwed arwyddocaol, fe drefnir cynhadledd achos cychwynnol[10] gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant ble trafodir cynlluniau hirdymor ar gyfer y plentyn. Fe nododd arolygwyr fod goruchwylwyr o’r uned PVP yn mynychu pob cynhadledd gychwynnol o’r fath. Mae presenoldeb swyddog yr heddlu yn y cyfarfodydd hyn, yn arbennig goruchwyliwr, yn ymroddiad pwysig i rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd am blant sydd angen eu helpu ac amddiffyn.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn atgyfeirio achosion cam-drin domestig a asesir i fod yn risg uchel gan yr heddlu neu bartneriaid, a’r rhai yn ymwneud ag achosion sydd wedi eu hystyried yn flaenorol yn y ceisiadau MARAC neu Gyfraith Clare[11] i MARAC er mwyn sefydlu cynlluniau diogelu tymor hirach. Roedd presenoldeb da o gynrychiolwyr uwch o’r heddlu yn ogystal ag o ystod eang o asiantaethau. Fe welodd arolygwyr fod gwybodaeth yn cael ei rhannu’n rheolaidd i ddiogelu dioddefwyr ac unrhyw blant sydd wedi eu heffeithio gan gam-drin domestig. Fodd bynnag, roedd rhai arferion yn amrywio ar draws ardal yr heddlu. Er enghraifft, yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, nid oedd yr heddlu yn derbyn cofnod llawn o’r achosion a drafodwyd ac felly nid oeddynt yn ymwybodol ar bob adeg o’r canlyniad a chynlluniau dilynol asiantaethau eraill, ac a oedd angen unrhyw weithredu pellach ar eu rhan.

[10] Yn dilyn ymholiadau adran 47 (gweler pennod 4 uchod), mae cynhadledd gychwynnol amddiffyn plentyn yn uno aelodau’r teulu, y plentyn ble fo’n briodol a’r gweithwyr hynny sy’n ymwneud fwyaf â’r plentyn a’r teulu, i wneud penderfyniadau am ddiogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn yn y dyfodol. Os yw pryderon yn ymwneud â phlentyn heb ei eni, dylid ystyried a ddylid cynnal cynhadledd amddiffyn plentyn cyn genedigaeth y plentyn. *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004,* Llywodraeth Cymru, Chwefror 2007 (diweddariad diwethaf), pennod 8, paragraffau 8.110 – 8.142.

[11] Mae Cyfraith Clare – y Cynllun Datgeliad Trais Domestig – wedi ei gynllunio i ddarparu gwybodaeth i ddioddefwyr allai eu diogelu rhag sefyllfa o gam-drin cyn iddo ddod yn drasiedi. Mae’r cynllun yn caniatáu i'r heddlu ddatgelu gwybodaeth am hanes blaenorol partner o gam-drin domestig neu weithredoedd treisgar. Mae’r Cynllun Datgeliad Trais Domestig wedi ei enwi ar ôl Clare Wood a gafodd ei llofruddio’n greulon yn 2009 gan ei chyn bartner George Appleton, oedd â record o drais yn erbyn menywod.

Ble roedd pryderon am gam-drin rhywiol, roedd yn rhaid i blant deithio pellteroedd maith ar gyfer archwiliadau meddygol, weithiau ar amserau amhriodol. Roedd hyn yn arwain at oedi a gofid pellach i ddioddefwyr. Er enghraifft, mewn un achos roedd yn rhaid mynd â merch 4 oed i Gaerdydd am archwiliad yn oriau mân y bore, ac mewn achos arall roedd oedi o sawl awr i ferch 16 oed cyn y cafodd ei harchwilio. Priodolwyd hyn gan yr heddlu i ddiffyg gwasanaethau fforensig tu allan i oriau swyddfa ar gyfer ardal yr heddlu.

**Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys, o fewn tri mis, yn cymryd camau i wella ymwybyddiaeth staff o'r cysylltiadau rhwng plant sydd ar goll oddi adref a'r risg o gamfanteisio rhywiol.**

**Argymhellwn fod yr heddlu, o fewn tri mis, yn cymryd camau gydag asiantaethau partner i sicrhau y cyflawnir archwiliadau meddygol fforensig mewn achosion cam-drin rhywiol yn ymwneud â phlant.**

## Ymchwiliad

Fe welodd arolygwyr y deliwyd yn brydlon ag ymchwiliadau cam-drin plant yn gychwynnol. Fe sefydlwyd cynlluniau diogelu i amddiffyn plentyn rhag niwed uniongyrchol yn gyflym, cynhaliwyd ymholiadau trylwyr a chymerwyd camau effeithiol. Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn gyson ac effeithiol.

Roedd enghreifftiau da o waith diogelu plant, gydag ymchwilwyr cam-drin plant yn arddangos cyfuniad o ymagweddau ymchwilio ac amddiffyn. Roeddynt yn sicrhau fod diogelu yn parhau i fod yn ganolog i'w hymdrechion wrth iddynt fynd ar drywydd cyfleoedd ymchwilio troseddol. Er enghraifft, dywedodd bachgen 10 oed wrth ei athro fod ei dad yn ei guro'n rheolaidd â ffon. Cafodd y bachgen ei gyfweld yn sensitif, cael archwiliad meddygol ar yr un diwrnod a'i roi mewn gofal maeth dros dro. Yn ystod yr ymchwiliad daeth i'r amlwg hefyd fod y tad yn cam-drin dau frawd iau'r bachgen, oedd yn wyth a phump oed, yn gorfforol a rhywiol. Casglwyd tystiolaeth gan y bechgyn yn gyflym ac effeithiol a gwneud trefniadau i wasanaethau gofal cymdeithasol plant ddarparu cefnogaeth barhaus i'r plant.

Er bod ymatebion ymchwiliol cychwynnol yn dda yn gyffredinol, yn aml roedd oedi arwyddocaol mewn ymchwiliadau, gyda chyfnodau annerbyniol ble roedd angen gwaith pellach. Roedd hyn yn amlwg mewn tua 40 y cant o'r achosion a archwiliwyd, ac yn y 12 achos o gam-drin rhywiol a archwiliwyd, aseswyd bod hanner yn annigonol oherwydd oedi hir mewn symud ymlaen ag ymholiadau pellach. Cofnododd swyddogion a goruchwylwyr yr angen am weithredu pellach ar ffeiliau achos a nodi nad oeddynt yn gallu mynd ar drywydd ymholiadau angenrheidiol oherwydd llwyth gwaith gormodol. Er enghraifft:

- yn Nhachwedd 2013, adroddwyd am gyhuddiad o gam-drin bachgen 14 oed yn rhywiol i'r heddlu. Chwe mis wedi cychwyn yr ymchwiliad, mynegodd y plentyn ei rwystredigaeth ynghylch faint o amser oedd y mater yn ei gymryd. Bedwar mis yn ddiweddarach, roedd ffeil erlyniad yr heddlu yn dal heb fod yn barod i'w hanfon at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar gyfer penderfyniad cyhuddo;

- yn Hydref 2013, datgelodd merch 16 oed gam-drin rhywiol gan ei thad-cu. Wedi gwaith cychwynnol prydlon gydag arestiadau a chyfweliadau, ni chofnodwyd unrhyw gamau pellach tan ddiwedd Rhagfyr 2013 ac ni anfonwyd ffeil erlyniad yr heddlu at y CPS tan fis Mai 2014. Ar adeg yr archwiliad (Hydref 2014), roedd yr heddlu yn dal i aros am benderfyniad cyhuddo gan y CPS; ac

- yn Medi 2013, dywedodd bachgen 10 oed a ganfuwyd tu allan dros nos wrth yr heddlu ei fod yn cael ei guro'n rheolaidd, yn cael ei lwgu ac yn aml yn cael ei gadw allan o'i gartref dros nos gan ei fam ers nifer o flynyddoedd. Sefydlwyd mesurau diogelu yn gyflym i amddiffyn y bachgen ac fe arestiwyd ei fam, ei chyfweld a'i rhyddhau ar fechnïaeth. Nid anfonwyd ffeil erlyniad yr heddlu i'r CPS tan fis Mai 2014 ac, ar adeg yr archwiliad, nid oedd y CPS wedi anfon ei gyngor eto. Roedd hyn fwy na blwyddyn wedi i'r achos gael ei adrodd gyntaf i'r heddlu ac roedd y plentyn wedi bod mewn gofal maeth ers hynny.

Dywedodd ymchwilwyr cam-drin plant wrth arolygwyr bod eu llwyth gwaith yn ormodol a bod hyn yn eu hatal rhag symud ymlaen ag achosion. Roeddynt yn cael eu dargyfeirio yn gyson o'u gwaith penodedig i gynorthwyo gyda chyfweliadau fideo o blant neu i ddelio ag achosion yn ymwneud ag oedolion bregus. Roedd pob ymchwiliad yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan oruchwylwyr ac fe wnaethant fynegi rhwystredigaeth debyg. Roedd staff yn ymroddedig iawn ac yn canolbwyntio ar ddarparu'r canlyniadau gorau i blant, ond yn teimlo bod eu diffyg gallu yn eu cyfaddawdu.

Roedd oedi wrth archwilio a dadansoddi cyfrifiaduron a chyfryngau eraill a gymerwyd gan uned troseddau technoleg uchel (HTCU) hefyd yn effeithio ar ymchwiliadau. Er enghraifft, fe gymerodd:

- dros chwe mis i ddadansoddi ffôn troseddwr rhyw honedig;

- dros saith mis i ddarparu dadansoddiad ac adroddiad tystiolaethol ar gyfrifiadur a ffôn o droseddwr rhyw a honnwyd i fod wedi ymosod yn rhywiol ar fachgen 14 oed dros gyfnod o ddwy flynedd; a

- tri mis i archwilio ffôn, a dros 10 mis i archwilio cyfrifiadur, gŵr a amheuwyd o feithrin perthynas ac ysgogi gweithgaredd rhywiol gyda dwy ferch 15 oed.

Canfu’r arolygwyr ôl-groniad o waith yn yr HTCU. Ar adeg yr archwiliad, roedd 25 o achosion yn aros i gael eu neilltuo, gydag 19 ohonynt yn ymwneud â throseddau rhyw. Defnyddiodd yr heddlu broses asesu risg i flaenoriaethu achosion ar gyfer archwiliad: deliwyd ag achosion blaenoriaeth uwch mewn tua 10 wythnos. Roedd yr achos hynaf yn yr ôl-groniad wedi bod yn aros i’w archwilio ers pum mis.

Fel y gwelir yn rhai o’r achosion a amlygwyd, roedd oedi hefyd o ran yr achosion a anfonwyd i’r CPS ar gyfer penderfyniadau adolygu ac erlyn.

Mae oedi yn groes i les plant gan nad ydynt yn gallu rhoi'r digwyddiad heibio, ac nid ydynt yn fanteisiol i’r sawl a ddrwgdybir a all fod ar fechnïaeth neu yn y ddalfa. Os ceir oedi wrth gasglu tystiolaeth, dadansoddi cyfryngau a derbyn penderfyniadau cyhuddo gan y CPS, fel y gwelwyd mewn achosion yn yr archwiliad hwn, gall y cyfnod amser rhwng yr alwad gyntaf i’r heddlu neu wasanaethau gofal cymdeithasol plant a chanlyniad cyfiawnder troseddol fod yn sylweddol.

Er bod Heddlu Dyfed-Powys wedi datblygu cynllun gweithredu i daclo CSE, roedd ymateb yr heddlu yn dal yn adweithiol yn bennaf. Archwiliodd arolygwyr 13 o achosion yn ymwneud â CSE a chanfod 6 i fod yn annigonol. Roedd yr heddlu yn araf i ymchwilio i a delio â’r risgiau cysylltiedig. Nid oedd tîm penodedig ar gyfer CSE ac roedd ymchwilwyr cam-drin plant yn delio â’r rhan fwyaf o’r achosion o fewn y PPUs. Ychydig iawn o dystiolaeth a welodd arolygwyr o waith datblygu gyda phartneriaid neu waith rhagweithiol gan yr heddlu, megis casglu tystiolaeth i nodi’r dioddefwyr mwyaf bregus, rhai a ddrwgdybir ac ardaloedd ‘mannau poeth’ y mae pobl ifanc a throseddwyr yn eu mynychu.

**Rydym yn argymell y dylai Heddlu Dyfed-Powys weithredu ar unwaith i:**

- **gymryd camau i wella safonau ymchwiliad i gynnwys lleihad mewn oedi, archwilio rheolaidd o ymchwiliadau, a mwy o oruchwyliaeth uwch i sicrhau y bodlonir y safonau hyn; ac**
- **i nodi ac adolygu pob achos ymchwiliad i gam-drin plentyn sydd wedi cymryd mwy na thri mis i’w ymchwilio o’r adroddiad cyntaf, ac i sicrhau y cefnogir ac y diogelir pob plentyn, a bod mesurau priodol yn weithredol i reoli’r risg a gyflwynir gan rai a ddrwgdybir.**
- **Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau ar unwaith i leihau oedi yn yr uned troseddau technoleg uchel.**

**Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys yn trafod, o fewn tri mis, gyda’r CPS p’un yw’r ffordd orau o leihau oedi yn y broses erlyn fel bod prydlondeb cyflwyno ffeiliau erlyniad gan yr heddlu, a phrydlondeb penderfyniadau erlyn, yn cael eu hadolygu a gwella’n rheolaidd.**

## Gwneud penderfyniadau

Mae'n gam difrifol iawn i dynnu plentyn o'i deulu neu ei theulu oherwydd diogelu gan yr heddlu.[12] Yn y sampl o achosion a aseswyd ble cymerwyd plant i warchodaeth yr heddlu, roedd yr arolygwyr yn ystyried fod swyddogion wedi arfer crebwyll da. Roedd un enghraifft yn cynnwys bachgen 15 oed, yn byw gyda'i daid a'i nain, oedd yn mynd ar goll yn rheolaidd. Pan ddaeth yr heddlu o hyd iddo, roedd yn anhapus iawn ac yn gyndyn i gydweithredu ac nid oedd eisiau mynd yn ôl at ei daid a'i nain. Wedi gwrando ar y plentyn, gwneud ymholiadau pellach ac ystyried gwybodaeth fod gan y taid broblemau alcohol, gwnaethant benderfyniad gwybodus i gymryd y bachgen i amddiffyniad yr heddlu.

Ac eithrio achosion yn ymwneud â phlant sydd dan risg o CSE, roedd tystiolaeth glir i staff rheng flaen wneud penderfyniadau effeithiol yn ystod camau cynnar mater amddiffyn plentyn. Fe gymeront gamau i amddiffyn, cofnodi'r wybodaeth a'i hanfon yn brydlon i'r CRU. Yna fe aseswyd yr wybodaeth hon gan oruchwylwyr amddiffyn plant hyfforddedig arbenigol a wnaeth benderfyniadau gwybodus ac amserol ynghylch atgyfeiriadau a thrafodaethau strategaethau yn ymwneud ag asiantaethau eraill. Fe gychwynnont ymchwiliadau pan oedd angen a sicrhau y cynhwyswyd y bobl briodol.

Pan nad oedd ymchwilwyr cam-drin plant a'r CRU yn gweithredu, gyda'r nos ac ar ddyddiau Sadwrn, fe gymerodd staff nad ydynt yn arbenigol (gan gynnwys timau plismona cymdogaeth a swyddogion ymateb[13]) gyfrifoldeb dros ymateb i alwadau amddiffyn plant i'r heddlu. Fodd bynnag, nid oeddynt yn gallu cael mynediad i'r system TG ymchwilio i gam-drin ble cofnodwyd gwybodaeth ar blant, megis ymgysylltiad amlasiantaethol blaenorol neu a ydynt yn destun cynllun amddiffyn plentyn. O ganlyniad, efallai y byddai gwybodaeth bwysig i hysbysu penderfyniadau swyddogion am y camau gorau i ddiogelu plant wedi ei cholli.

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys ddwy system TG ble cofnodir gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwiliadau cam-drin plant, un yn benodol i'r ymchwiliadau a system rheoli troseddau mwy cyffredinol. Nid yw'r systemau hyn wedi eu hintegreiddio. Mae hyn yn creu gwaith ychwanegol a rhywfaint o ddryswch o ran ble gellir dod o hyd i fanylion diweddaraf ymchwiliad. Weithiau roedd cofnodion yn anghyflawn; er

[12] Mae Adran 46(1) o Ddeddf Plant 1989 yn grymuso swyddog yr heddlu, sydd ag achos rhesymol i amau y byddai plentyn fel arall yn debygol o ddioddef niwed arwyddocaol, i (a) fynd â'r plentyn i lety addas a chadw'r plentyn yno neu (b) gymryd unrhyw gamau rhesymol i sicrhau yr atalir ymgais i symud plentyn o unrhyw ysbyty neu le arall ble mae'r plentyn yn cael ei letya ar y pryd.

[13] Mae tîm plismona cymdogaeth yn dîm o swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu sy'n patrolio yn bennaf ac wedi eu neilltuo i blismona cymuned leol benodol. Mae timau yn aml yn cynnwys swyddogion arbenigol a staff gydag arbenigedd mewn atal troseddau, diogelwch cymunedol, trwyddedu, cyfiawnder adferol ac ymgysylltu ag ysgolion. Mae swyddog ymateb yn un a neilltuwyd i ddelio â galwadau argyfwng a blaenoriaeth.

enghraifft, byddai manylion ethnigrwydd plentyn, yr ysgoliddynt ei mynychu ac unrhyw anabledd neu angen am gymorth i gyfathrebu yn aml ar goll. Mae hyn yn wybodaeth allweddol a ddylai hysbysu asesiadau a phenderfyniadau.

Roedd cofnodion cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau achos yn hygyrch ar system TG ymchwilio i gam-drin plant a diweddarwyd cofnodion wedi'r cyfarfodydd hyn fel bod gwybodaeth am benderfyniadau a wnaethpwyd i amddiffyn plant yn ar gael ar unwaith i ymchwilwyr cam-drin plant.

Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys, o fewn chwe mis, yn cymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn hygyrch, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i bob swyddog sy'n delio ag achosion ble ceir pryderon am les plant.

## Oedolyn dibynadwy

Pan oedd pryder yn ddifrifol ac wedi ei gydnabod ar unwaith fel digwyddiad amddiffyn plant, fe ystyriwyd yr ymagwedd i'r plentyn neu rieni (neu weithiwr cymdeithasol os mai'r rhiant a ddrwgdybiwyd) yn ofalus, ac fe archwiliwyd y ffordd orau i ymgysylltu â'r plentyn. Arweiniodd y dull sensitif hwn at sefydlu perthynas gryfach rhwng y plentyn a'r heddlu. Dyma ddwy enghraifft o hyn:

- atgyfeiriad a dderbyniwyd gan ysgol fod mam i ferch 12 oed gydag anableddau dysgu wedi ymosod arni yn dilyn dadl. Ymwelodd yr heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant â'r ysgol ar y cyd. Siaradwyd â'r ferch gyda chefnogaeth nyrs yr ysgol, gan wrando ar ei phryderon. Fe ystyriwyd ei hanghenion arbennig, a'i dyheadau. Arhosodd gyda'i mam, gyda chefnogaeth gweithiwr cymdeithasol, wrth i'r ymchwiliad fynd ei flaen; a

- derbyniwyd galwad frys am les merch 15 oed wedi gweld negeseuon testun ganddi yn awgrymu ei bod wedi cymryd gorddos o paracetamol. Ymwelodd swyddogion ar unwaith â chartref y ferch a'i darganfod ar ei phen ei hun. Fe wiriwyd ei lles, cadarnhau nad oedd wedi cymryd unrhyw dabledi a gwrando arni. Wedi clywed pryderon y ferch, fe anogodd y swyddogion hi i'w rhannu gyda'i rhieni a'i chynghori i weld ei chynghorydd ysgol. Yna fe siaradont â'i rhieni a threfnu cefnogaeth atodol i'r teulu gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant cyn cau'r digwyddiad.

Fodd bynnag, canfu ymchwilwyr fod yr oedi arwyddocaol wrth symud ymchwiliadau cam-drin plant ymlaen a ddisgrifiwyd yn gynharach weithiau'n gadael y plentyn yn teimlo heb gefnogaeth ac yn achosi i'r plentyn golli hyder yn yr heddlu. Er bod ymchwilwyr cam-drin plant yn sensitif i anghenion y plentyn, fe ddywedont wrth arolygwyr nad oeddynt yn gallu cynnal y cyswllt angenrheidiol i adeiladu perthynas ddibynadwy oherwydd eu llwyth gwaith.

Canfu'r arolygwyr nifer o achosion ble roedd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn amlwg yn ystyried barnau ac anghenion plant, ond ychydig iawn o wybodaeth oedd yna ar y ffeiliau achos i gofnodi barnau'r plentyn, effaith y materion yn yr achos ar y plentyn neu ganlyniadau ymyrraeth gan yr heddlu i'r plentyn. Yn Sir Benfro, roedd model effeithiol yn weithredol ble roedd yr heddlu a gweithwyr ymyrraeth cyffuriau wedi ymweld â defnyddwyr cyffuriau hysbys oedd â phlant ifanc, wedi gwrando ar eu hanghenion (ac anghenion eu plant), wedi ceisio deall eu problemau a'u hannog i gael triniaeth.

Fe nododd yr arolygwyr yn arbennig ymroddiad yr heddlu i ymgysylltu gydag a meithrin ymddiriedaeth mewn plant yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd trwy swyddogion cyswllt ysgolion[14] penodedig oedd yn effro i ac yn ymatebol i risg.[15]

**Rydym yn argymell y dylai Heddlu Dyfed-Powys, o fewn chwe mis, sicrhau:**

- **bod pob aelod o staff yn cofnodi barnau a phryderon plant ac unrhyw ddeilliannau sydd ar gael ar ddiwedd gwaith yr heddlu ar achos; ac**
- **y darperir gwybodaeth am anghenion a barnau plant ar gyfer ystyriaeth gan gomisiynydd yr heddlu a throseddu yn rheolaidd, ac i reolwyr gwasanaeth i hysbysu arfer yn y dyfodol.**

## Rheoli'r rhai sy'n cyflwyno risg i blant

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys uned benodedig - yr uned troseddwyr rhyw a threisgar - i reoli troseddwyr rhyw cofrestredig (RSO). Canfu arolygwyr fod gwybodaeth wedi ei rheoli'n dda a bod cynlluniau i reoli risgiau oll yn gyfredol. Roedd ymweliadau monitro i wirio fod RSOs yn cadw at eu gofynion cofrestru yn amserol. Roedd staff yn gweithio yn y tîm yn glir o ran eu cyfrifoldebau, yn cyflawni ymholiadau prydlon a manwl, yn asesu risg yn dda ac yn gweithredu i'w leihau. Fe wnaethant ddefnyddio eu grymoedd i arestio'r rhai nad oeddynt wedi cadw at eu hamodau cofrestru neu ofynion eraill, megis gwaharddiadau ar gyswllt a phlant. Mewn un enghraifft, cynhaliodd swyddogion ymweliad cartref i RSO yn dilyn ei ryddhad o'r carchar a darganfod ei fod wedi sefydlu perthynas gyda dau o blant ifanc yn byw drws nesaf. Fe nododd y swyddogion y risg ar unwaith, rhybuddio'r troseddwr a rhoi digon o wybodaeth i'r teulu i'w galluogi i amddiffyn eu plant.

[14] Swyddog yr heddlu sy'n gweithio'n agos gydag ysgolion, staff a disgyblion i hyrwyddo perthynas dda rhwng yr ysgol a gwasanaeth yr heddlu, gyda'r nod o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu trwy ganolbwyntio ar ymyrraeth ac ataliaeth gynnar.

[15] Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn raglen atal troseddu a ariennir ar cyd gan Lywodraeth Cymru a phedwar heddlu Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth ar y rhaglen mewn adolygiad ohoni a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011 ac sydd ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol: http://wales.gov.uk/statistics-and-research/all-wales-school-liaison-core-programme-evaluation-report/?skip=1&lang=cy

Fe wnaeth staff gyfathrebu a gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill hefyd, wrth gynllunio a chyflawni ymholiadau ar y cyd ble fo'n briodol. Er enghraifft, nododd yr heddlu fod troseddwr rhyw nad oedd bellach yn destun cofrestriad yn byw gyda phartner newydd a bachgen saith oed. Cynhaliwyd trafodaeth strategaeth gynnar gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, rhybuddiwyd y fam o'r risgiau a chyflawnwyd ymweliad ar y cyd i weld y bachgen yn ei ysgol i wirio nad oedd cael niwed.

Roedd hefyd gysylltiadau da rhwng yr uned troseddwyr rhyw a threisgar a thimau plismona cymdogaeth oedd yn ymwybodol o RSOs yn eu hardal. Fe basiodd y timau cymdogaeth wybodaeth ymlaen yn rhagweithiol a chynorthwyo i adeiladu gwybodaeth gymunedol. Er enghraifft, fe nododd swyddog cymorth cymunedol RSO gyda chollfarnau blaenorol am dreisio yn dal dwylo gyda menyw o oedran tebyg i'w ddioddefwr blaenorol. Fe sicrhaodd y swyddog y rhoddwyd yr wybodaeth newydd hon i swyddogion oedd yn monitro'r RSO.

Gan amlaf, cymerodd swyddogion gamau gweithredu yn erbyn troseddwyr, ond ar adegau roedd hyn yn annerbyniol o araf. Roedd yr ymateb yn wannach mewn achosion CSE, ac mewn 4 o'r 13 o achosion a archwiliwyd gan arolygwyr, ni aethpwyd ar drywydd mesurau i daclo troseddwyr oherwydd amharodrwydd ar ran y plentyn i gefnogi gweithredu gan yr heddlu. Ni ddylai hyn fod wedi atal swyddogion rhag nodi troseddwyr tebygol, casglu gwybodaeth a phennu'r risg y gallai'r troseddwyr tebygol ei chyflwyno i blant eraill. Er enghraifft, canfuwyd merch 14 oed oedd dan risg o niwed yng nghwmni 3 defnyddiwr cyffuriau hysbys. Er y sefydlwyd rhai mesurau diogelu i amddiffyn y ferch, nid oedd cofnod i ddangos y siaradwyd â'r rhai a amheuwyd nac y rhoddwyd ystyriaeth i roi hysbysiadau herwgipio plentyn iddynt[16]. Mewn achos arall, dywedodd merch 14oed wrth ei thad fod gŵr 23 oed wedi cynnig prynu pâr o esgidiau iddi yn gyfnewid am ryw. Roedd y ferch yn amharod i siarad â'r heddlu ac ni wnaethant unrhyw ymholiadau pellach er gwaethaf y risg amlwg yr oedd y gŵr hwn yn cyflwyno.

Er nad oes gan yr heddlu ddigon o dystiolaeth i fynd ar drywydd erlyniad, byddant yn dal i allu amharu ar weithgareddau troseddwyr trwy, er enghraifft, gadw llygad ar ardaloedd ble mae plant bregus yn dueddol o ymgynnull neu trwy gyhoeddi hysbysiadau herwgydio plentyn yn erbyn rhai a nodir i fod dan amheuaeth. Ychydig iawn o dystiolaeth a welodd yr arolygwyr o weithgaredd amhariad, a dim ond saith hysbysiad herwgydio plentyn a gyhoeddwyd gan yr heddlu ers Medi 2012.

**Argymhellwn, o fewn tri mis, fod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu i wella nodi, amhariad ac erlyniad o'r rhai sy'n ymwneud â CSE.**

---

[16] Hysbysiad anstatudol a gyhoeddir pan ddaw'r heddlu'n ymwybodol o blentyn yn treulio amser gydag oedolyn y credant allai fod yn niweidiol i'r plentyn. Defnyddir hysbysiad i amharu ar gysylltiad yr oedolyn gyda'r plentyn neu berson ifanc, yn ogystal ag i rybuddio'r oedolyn y gallai'r cysylltiad arwain at arestio ac erlyniad.

## Cadw gan yr heddlu

Edrychodd yr arolygwyr ar 12 achos o blant yn y ddalfa. Roedd yr ieuengaf yn 13 oed a'r hynaf yn 17. Roedd pump o'r rhai a gadwyd yn ferched, 13, 15 a 17 oed. Cawsant eu harestio am droseddau yn cynnwys lladrad, byrgleriaeth ac ymosodiad. Roedd tri o'r plant wedi eu cadw dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Barnodd yr arolygwyr fod dau i'r achosion yn dda, saith yn ddigonol a thri yn annigonol.

Fe hunanasesodd Heddlu Dyfed-Powys dri o'r achosion hyn, oll yn ymwneud â bechgyn. Fe wnaethant asesu dau i fod yn dda ac un i fod yn annigonol. (Yn asesiadau'r Arolygwyr, roedd un wedi ei raddio'n dda a dau yn ddigonol.)

Yn y rhan fwyaf o'r achosion a archwiliwyd, roedd y plentyn wedi bod yn destun asesiad risg gan y swyddog cystodaeth cyn cael ei dderbyn i'r ystafell gystodaeth. Fodd bynnag, yn y tri achos a aseswyd i fod yn annigonol gan arolygwyr, ni chofnodwyd digon o wybodaeth ar y cofnodion cystodaeth i ddangos y rhesymeg dros y penderfyniadau a wnaethpwyd am gadw'r plentyn.

Mewn achosion ble cyhuddir y plentyn o dramgwydd troseddol ac y gwrthodir mechnïaeth gan y rhingyll cystodaeth, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu llety priodol er mwyn cadw'r plentyn[17]. Dim ond mewn achosion eithriadol ddylai trosglwyddo i lety amgen fod yn annhebygol o fod er lles y plentyn. Yn y 12 achos a archwiliwyd, cyhuddwyd 3 o'r plant a gwrthod mechnïaeth iddynt. Pan ofynnodd swyddogion am lety amgen, nid oedd unrhyw lety ar gael yn yr ardal awdurdod lleol perthnasol. Mewn achos arall a archwiliwyd, cafodd y plentyn ei drosglwyddo i ofal yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid oedd llety awdurdod lleol addas ar gael ac fe dreuliodd gweithiwr cymdeithasol y noson gyda'r plentyn 15 oed yng ngorsaf yr heddlu.

Pan gedwir plentyn yng nghelloedd yr heddlu yn hytrach nag mewn llety awdurdod lleol, dylai swyddog y ddalfa gwblhau tystysgrif i'r chyflwyno i'r llys yn esbonio'r amgylchiadau.[18] Canfu'r arolygwyr ddau achos ble nad oedd y dystysgrif hon wedi ei chwblhau.

Mae Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl1983 yn caniatáu i swyddog yr heddlu symud unigolyn sy'n ymddangos i fod â salwch meddwl o le cyhoeddus i le diogel. Er y gall lle diogel gynnwys ystafell ddalfa'r heddlu, dylid defnyddio hyn mewn amgylchiadau eithriadol yn unig a byddai'n well mynd â'r unigolyn yn syth i gyfleuster

[17] Dan adran 38(6) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, rhaid i swyddog cystodaeth sicrhau y symudir plentyn i lety awdurdod lleol oni bai ei fod yn ardystio nad yw'n ymarferol i wneud hynny neu, i'r rhai sy'n 12 oed neu'n hŷn, nid oes llety diogel ar gael ac ni fyddai llety awdurdod lleol yn briodol i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol ganddo.

[18] Adran 38(6) a(7) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

iechyd megis ysbyty[19]. Fodd bynnag, aethpwyd â phlant a gadwyd dan y pŵer hwn yn Nyfed-Powys i ystafelloedd dalfa'r heddlu gan amlaf, er nad oed dyr heddlu yn gallu darparu'r nifer o blant a effeithiwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedwyd wrth arolygwyr gan staff y ddalfa bod hyn oherwydd diffyg cyfleusterau meddygol addas yn ardal yr heddlu.

Roedd arolygwyr yn poeni am achos yn ymwneud â merch 17 oed gyda hanes o iselder a hunan-niweidio oedd yn ymddwyn yn dreisgar pan gafodd ei chadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Defnyddiwyd chwistrell analluogi[20] ac atalwyr aelodau i dawelu'r ferch ac fe'i gosodwyd mewn ystafell hunan-niweidio i gyfyngu ar ei symudiadau a'i hatal rhag niweidio ei hun. Ni chofnodwyd unrhyw resymeg dros pam fod angen y mesurau hyn ar gyfer person ifanc bregus.

Roedd Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd i gyflwyno mynediad cynnar i nyrs iechyd meddwl benodol i gefnogi plant a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl ac i'w dargyfeirio o'r ddalfa. Bwriadwyd gweithredu'r cynllun hwn ar ddiwedd Hydref 2014.

Canfu arolygwyr nad oedd gan y rhan fwyaf o staff y ddalfa ymwybyddiaeth na gwybodaeth o amddiffyn plant a CSE. Fe ddywedont wrth arolygwyr nad oeddynt wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu, amddiffyn plant na CSE, nac ar beth i'w wneud os oeddynt yn amau fod plentyn yn agored i gamfanteisio rhywiol. Nid oedd gwybodaeth arwyddocaol am blant, megis risgiau o CSE neu a oedd plentyn yn destun cynllun amddiffyn plentyn, ar gael i staff y ddalfa ychwaith.

**Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys, o fewn tri mis, yn cyflawni adolygiad (ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac asiantaethau perthnasol eraill) o sut mae'n rheoli cadw plant. Dylai'r adolygiad gynnwys, fel isafswm, y ffordd orau o:**

- **sicrhau, gydag asiantaethau partner, fod plant a gedwir dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl, yn cael eu cadw yn nalfa'r heddlu dan amgylchiadau eithriadol yn unig;**
- **ddarparu hyfforddiant i staff cystodaeth i wella eu hymwybyddiaeth o fregusrwydd plant, amddiffyn plant a CSE**;

---

[19] Deddf Iechyd Meddwl 1983: Cod Ymarfer Cymru, Llywodraeth Cymru, 2008, paragraff 7.18. www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/816/Mental%20Health%20Act%201983%20Code%20of%20Practice%20for%20Wales%20Welsh%20version.pdf

[20] Caiff chwistrelliad CS (Corson a Staughton) ei ryddhau o dun gan swyddogion yr heddlu a'i ddefnyddio fel analluogwr dros dro i dawelu ymosodwyr neu bobl sy'n ymosodol dreisgar. Mae'n chwistrelliad diniwed sy'n darfod heb adael unrhyw niwed. Mae swyddogion yr heddlu yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar ei ddefnyddio ac mae'n ofynnol i ddilyn canllawiau cenedlaethol www.acpo.police.uk/documents/uniformed/2009/200905UNGIS01.pdf

- **asesu'r angen am lety amgen yn fuan, ac i weithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i sicrhau trosglwyddiadau ble fo angen hyn; ac**
- **sicrhau bod staff cystodaeth yn cofnodi pob gweithred a phenderfyniad gyda rhesymeg glir os cedwir plant yn nalfa'r heddlu ac yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol, gan gwblhau tystysgrifau dalfa ble fo angen.**

# 6. Canfyddiadau: arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu

Mae amddiffyn pobl fregus yn flaenoriaeth yn y cynllun heddlu a throseddu ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.[21] Mae'r cynllun yn sefydlu ymroddiad i 'sicrhau bod arferion gwaith effeithiol wedi eu sefydlu i reoli galw cynyddol, yn arbennig parthed atgyfeiriadau amddiffyn plant, rheoli troseddwyr rhyw ac adroddiadau o gam-drin domestig a throseddau casineb'.[22]

Ar adeg yr archwiliad, roedd yr heddlu yn y broses o gryfhau'r uned PVP trwy recriwtio wyth aelod atodol o staff, er mai dim ond tri fyddai'n ymchwilwyr cam-drin plant. Roedd rheolaeth ganolog o'r pedwar PPU yn yr is-adrannau yn arwain at arferion mwy cyson, ac yn darparu mwy o hyblygrwydd a gwytnwch, gan gadw gwasanaethau yn lleol.

Mae'r heddlu wedi buddsoddi amser ac adnoddau mewn hyfforddi swyddogion rheng flaen, sydd â dealltwriaeth dda o'u rôl o ran diogelu a phryd a sut i atgyfeirio digwyddiadau i'r CRU. Mae nawr angen ymestyn yr hyfforddiant hwn i staff cystodaeth ac i hybu eu hymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amddiffyn plant a CSE. Arsylwodd yr arolygwyr effeithiolrwydd 'wal briffio' dyddiol (system briffio electronig sydd ar gael i'r holl swyddogion wrth iddynt ddod ar ddyletswydd). Mae hyn wedi darparu gwybodaeth ar blant bregus dan risg a throseddwyr rhyw penodol mewn ardaloedd lleol i staff rheng flaen. Defnyddiwyd y system hefyd i nodi a dyrannu camau gweithredu a chafodd ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn i staff allu gweld beth oedd wedi digwydd. Er enghraifft, gwelodd arolygwyr gais am ymweliad i ddioddefwr cam-drin domestig risg uchel a nodyn yn cadarnhau y cwblhawyd hyn.

Nododd yr arolygwyr effaith cael goruchwylwyr amddiffyn plant profiadol yn gweithio yn y CRU yng nghryfder y gwaith ymchwil cychwynnol a'r ymateb diogelu. Fe wnaethant nodi yn effeithiol y materion dan sylw, a'r camau ac ymholiadau angenrheidiol i symud achosion cam-drin plant a gyfeiriwyd i'r uned ymlaen.

Ar adeg yr archwiliad, roedd yr heddlu yn gweithio gyda phedwar awdurdod lleol yn ei ardal i sefydlu MASH. Roedd cynnydd wedi bod yn araf, er bod Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi darparu aelod o staff i weithio yn y CRU i baratoi. Roedd hyn yn gam positif tuag at rannu gwybodaeth yn gynnar ac i wella asesiadau risg. Roedd gweithiwr Barnardo's hefyd wedi ei leoli yn y CRU am ddau ddiwrnod yr wythnos i wella nodi risg o CSE yn gynnar i blant a adroddwyd yn rheolaidd i fod ar goll o'u

[21]Gellir gweld Cynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar gyfer 2013-18 ar: www.dyfed-powys.pcc.police.uk/Document-Library/Priorities-and-Policies/Police-and-Crime-Plan-Welsh-Final-Designed.pdf

[22] Ibid, tudalen 10.

cartrefi. Roedd hyn yn ddatblygiad calonogol a bydd yr heddlu a'i bartneriaid eisiau monitro'r effaith ar ganlyniadau i blant yn agos.

Roedd staff arbenigol sy'n gyfrifol am reoli ymchwiliadau cam-drin plant yn wybodus, ymroddedig ac eisiau sicrhau'r canlyniad gorau posibl i'r plant oedd dan risg o niwed. Roedd nifer wedi cwblhau'r rhaglen ddatblygu arbenigol ar gyfer ymchwiliwr i gam-drin plant, ond roedd nifer o staff yn dal i aros am hyfforddiant arbenigol.

Roedd tystiolaeth o drosolwg goruchwyliol a gosod cyfeiriad da yn ymchwiliadau hyn, gydag adolygiadau rheolaidd a rhesymau dros oedi yn cael eu cofnodi gan oruchwylwyr. Fodd bynnag, gwelodd arolygwyr ormod o achosion gydag oedi annerbyniol a oedd yn cael effaith ar safon y gwasanaeth. Mynegodd nifer o staff arbenigol bryderon am eu llwyth gwaith gormodol ac fe nodwyd hyn ar ffeiliau achos fel rheswm dros ddiffyg cynnydd mewn rhai achosion.

Dywedwyd wrth arolygwyr nad oedd gwasanaethau fforensig pediatrig yn hygyrch ar gyfer dioddefwyr sy'n blant mewn achosion o gam-drin rhywiol a amheuir. Roedd hyn yn arwain at archwilio plant ar adegau amhriodol a gorfod teithio pellteroedd maith. Ni welodd yr arolygwyr dystiolaeth fod y mater hwn wedi cael ei basio i fyny a'i ddatrys gan uwch swyddogion.

Roedd yr HTCU wedi ei ymgorffori i uned troseddau cyfathrebu digidol a seiber newydd, a sefydlwyd yn fuan wedi'r archwiliad. Daeth hyn â mwy o allu, ond hefyd cylch gwaith ehangach. Mae angen delio â'r ôl-groniad o waith, ac oedi i ddadansoddi a'r dystiolaeth sy'n deillio o gyfrifiaduron a dyfeisiau cyfryngau eraill, yn rhan o ddatblygiad y tîm newydd hwn.

Nid oedd systemau cofnodi ar gyfer cam-drin plant a rheoli troseddau wedi eu hintegreiddio'n dda ac nid oedd yn cefnogi ymchwilwyr cam-drin plant. Roedd cofnodi gwybodaeth ddyblyg yn gyffredin a, ble na wnaethpwyd hyn, nid oedd gan staff yr holl wybodaeth oedd angen i wneud penderfyniadau dar bob adeg.

Roedd swyddogion yn mynychu'r holl gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol. Mae hyn yn dangos ymroddiad yr heddlu i amddiffyn plant, a gydnabuwyd gan gyfarwyddwyr gwasanaethau plant yr awdurdodau lleol y siaradodd arolygwyr HMIC â nhw a gan gadeirydd y bwrdd rhanbarthol diogelu plant.

Mae'r bwrdd rhanbarthol a sefydlwyd yn ddiweddar yn darparu fforwm ar gyfer y pedwar awdurdod lleol a'i bartneriaid i ddod ynghyd i sicrhau effeithlonrwydd trefniadau a gwasanaethau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae hyn yn gam positif tuag at ddatblygu ymagwedd fwy integredig a chyson ar draws ardal yr heddlu. Roedd yr heddlu yn ymgysylltu'n llawn â'r gwaith i ddatblygu'r bwrdd rhanbarthol, yn arbennig gyda sefydlu'r blaenoriaethau a threfniadau ar gyfer cydlynu a sicrhau ansawdd gweithgareddau diogelu asiantaethau sy'n aelodau.

Mae cadw plant (gyda neu heb broblemau iechyd meddwl) yn nalfa'r heddlu yn hytrach na mewn llety amgen, a diffyg gwasanaethau pediatrig fforensig yn faterion y

dylai Heddlu Dyfed-Powys godi yn y bwrdd rhanbarthol amddiffyn plant. Nodwyd fod cadw yng nghelloedd yr heddlu yn broblem mewn archwiliad blaenorol[23] ac fe ddywedwyd wrth yr arolygwyr fod y PCC wedi ysgrifennu at brif weithredwyr y pedwar awdurdod lleol yn ardal yr heddlu ynglŷn â'u cyfrifoldeb i ddarparu llety amgen i blant.

Roedd yn glir fod yr heddlu yn dechrau cydnabod y cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu, gan gynnwys y gymuned Bwylaidd a theuluoedd milwrol sy'n preswylio yn ardal yr heddlu. Mae'r ardal yn gyrchfan wyliau arwyddocaol ac mae'r heddlu wedi darparu hyfforddiant i'r diwydiant hamdden ar ddiogelu a chydnabod ymddygiadau sy'n peri gofid. Roedd arolygwyr yn ystyried hyn i fod yn arfer da.

Mae'r heddlu wedi ymgysylltu'n weithredol â threfniadau i reoli troseddwyr risg uchel a MAPPA, a gweodd yr arolygwyr rannu gwybodaeth systematig a chynlluniau rhyngasiantaethol i reoli risg. Roedd presenoldeb rheolaidd gan swyddogion o lefel briodol mewn cyfarfodydd. Fe nodwyd materion diogelu a'u hystyried.

Roedd perfformid a data arall i helpu datblygu gwasanaethau yn gyfyngedig. Roedd yr heddlu yn monitro niferoedd digwyddiadau ac achosion, er enghraifft, y nifer o atgyfeiriadau cam-drin plant a digwyddiadau cam-drin domestig ble roedd plant yn bresennol. Ond ychydig iawn o wybodaeth a gafwyd am ddeilliannau positif i blant i helpu nodi meysydd i'w gwella. Mae angen rhoi sylw i hyn. Dylid hefyd casglu gwybodaeth rheoli yn ymwneud ag amserlenni ar gyfer gweithredu a phenderfyniadau a'u darparu i staff.

Ychydig iawn o dystiolaeth o archwiliadau mewnol o waith diogelu plant welodd yr arolygwyr, ac fe nodwyd fod diffyg manylder a dadansoddiad critigol yn nifer o'r achosion yr asesodd yr heddlu ar gyfer yr arolygiad hwn. Fodd bynnag, roedd yr heddlu wedi bod yn ymwneud â nifer o adolygiadau arferion plant[24] ac wedi cynnal digwyddiadau i staff ledaenu arfer da. Roedd y dysgu ac argymhellion a gytunwyd o adolygiadau yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar wefan fewnol a reolwyd gan yr uned PVP. Roedd hyn yn cynnwys cynllun gweithredu i fonitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Roedd grŵp amlasiantaethol, a sefydlwyd i fonitro sut i drin achosion treisio a throseddau rhyw difrifol, hefyd yn darparu craffu.

Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer CSE, ac er bod tipyn o waith yr heddlu ar CSE yn adweithiol, roedd gwaith wedi dechrau ar adeg yr archwiliad i greu darlun o gyffredinolrwydd a risg. Roedd yr heddlu wedi

[23] *Dyfed-Powys – Joint inspection of police custody*, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Hydref 2013. Ar gael o: www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/publication/dyfed-powys-joint-inspection-of-police-custody-suites/

[24] Adolygiadau amlasiantaethol a gynhelir wedi i blentyn farw neu gael ei anafu'n ddifrifol i ddysgu gwersi ac i helpu digwyddiadau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol.

cydweithredu â heddluoedd eraill yng Nghymru ac Undeb Rygbi Cymru i ddatblygu ymgyrch ymwybyddiaeth CSE oedd yn cynnwys podlediad ar fewnrwyd yr heddlu. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau amlasiantaethol i daclo CSE wedi eu datblygu'n dda. Mae'r heddlu angen gwneud defnydd llawn o'i bwerau i amharu ar ac erlyn y rhai sy'n ymwneud â CSE. Mae hefyd angen gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymagwedd fwy ragweithiol ac ataliol i ddiogelu plant dan risg.

# 7. Canfyddiadau: Effeithiolrwydd cyffredinol yr heddlu a'i ymateb i blant sydd angen help ac amddiffyn

Arddangosodd Heddlu Dyfed-Powys ymroddiad i wella gwasanaethau amddiffyn plant. Mae ganddo dîm canolog sy'n darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad ac sy'n ysgogi nifer o arferion cyson ac effeithiol ar draws yr heddlu. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i leihau'r oedi arwyddocaol mewn ymchwiliadau a sicrhau y gall yr heddlu ddelio â'r galwadau a roddir arno. Mae'r ardal ddaearyddol fawr y mae'r heddlu yn gyfrifol amdani yn cyflwyno her ychwanegol gan fod swyddogion arbenigol wedi eu lledaenu'n eang ac yn aml yn teithio'n bell ar ffyrdd gwledig yn ystod eu gwaith.

Roedd trosolwg goruchwyliol ar gyfer amddiffyn plant yn dda, gyda staff profiadol a medrus yn y CRU yn cychwyn ymatebion diogelu effeithiol, a rheolwyr ymroddedig a gwybodus yn goruchwylio'r gwaith o ddydd i ddydd yn y pedwar PPU. Roedd staff sy'n gyfrifol am ymchwiliadau cam-drin plant yn ymroddedig a gweithgar iawn, ond roedd eu llwyth gwaith beichus yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd ymchwiliadau a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant oedd yn ddioddefwyr a'u teuluoedd. Er bod yr heddlu wedi cydnabod yr angen am fwy o staff, dim ond tri ymchwilydd atodol oedd wedi eu neilltuo ar gyfer cam-drin plant.

Pan oedd digwyddiad yn cael ei gydnabod gan swyddogion fel mater amddiffyn plant, fe wnaethant ymateb yn dda, o ran gweithredu fel heddlu a gweithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i ddiogelu plant, ond mae'r heddlu angen gwella ei ymateb unwaith i'r argyfwng cychwynnol basio. Mae hefyd angen gweithio gydag asiantaethau eraill i ddatblygu ymagwedd fwy rhagweithiol i daclo CSE, a dylai fod yn fwy effro i risg a niwed posibl mewn achosion llai amlwg, er enghraifft, achosion CSE posibl yn ymwneud â rhai yn eu harddegau sy'n amharod i gydweithredu.

Roedd yr heddlu yn amlwg wedi gwneud ymdrech i wella gallu staff rheng flaen i gydnabod y gallai plant fod mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod, ond roedd ymwybyddiaeth yn isel ymysg y rhai'n gweithio yn y ddalfa. Roedd gwybodaeth a dealltwriaeth o CSE yn amrywio, er gwaethaf ymgyrch gydag Undeb Rygbi Cymru.

Dylid datblygu fframwaith perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar y deilliannau i blant sydd angen amddiffyniad (yn hytrach na'r nifer o achosion a broseswyd) er mwyn i'r heddlu wella a chynyddu ei waith amddiffyn plant.

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys berthynas weithredol dda gyda'r pedwar awdurdod lleol a'r gwasanaethau eraill sy'n gweithredu ar draws ardal yr heddlu. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy trwy weithio ar y cyd i gyflawni gwell gwasanaethau, yn

arbennig parthed plant yn y ddalfa, archwiliad pediatrig fforensig, plant gyda phroblemau iechyd meddwl a’r rhai sydd dan risg o CSE.

# 8. Argymhellion

## Ar unwaith

Rydym yn argymell y dylai Heddlu Dyfed-Powys:

- gymryd camau i wella safonau ymchwilio i gynnwys lleihad mewn oedi, archwilio rheolaidd o ymchwiliadau, a mwy o oruchwyliaeth uwch i sicrhau y bodlonir y safonau hyn; ac
- nodi ac adolygu pob achos ymchwiliad i gam-drin plentyn sydd wedi cymryd mwy na thri mis i'w ymchwilio o'r adroddiad cyntaf, ac yn sicrhau y cefnogir ac y diogelir pob plentyn, a bod mesurau priodol yn weithredol i reoli'r risg a gyflwynir gan rai a ddrwgdybir.

Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau i leihau oedi yn yr uned troseddau technoleg uchel.

## O fewn tri mis

Rydym yn argymell fod Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau bod swyddogion yn cofnodi eu harsylwadau o ymddygiad ac ymarweddiad plentyn bob adeg mewn cofnodion digwyddiadau cam-drin domestig, er mwyn gwneud gwell asesiad o anghenion y plentyn.

Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau i wella ymwybyddiaeth staff o'r cysylltiadau rhwng plant sydd ar goll o adref a'r risg o gamfanteisio rhywiol.

Argymhellwn fod yr heddlu yn cymryd camau gydag asiantaethau partner i sicrhau y cyflawnir archwiliadau meddygol fforensig mewn achosion cam-drin rhywiol yn ymwneud â phlant.

Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys yn trafod gyda'r CPS sut yw'r ffordd orau o leihau oedi yn y broses erlyn fel bod prydlondeb cyflwyno ffeiliau erlyniad gan yr heddlu, a phrydlondeb penderfyniadau erlyn, yn cael eu hadolygu a gwella'n rheolaidd.

Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu i wella nodi, amharu ac erlyn o'r rhai sy'n ymwneud â CSE.

Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys yn cyflawni adolygiad (ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac asiantaethau perthnasol eraill) o sut mae'n rheoli cadw plant. Dylai'r adolygiad gynnwys, fel isafswm, y ffordd orau o:

- sicrhau, gydag asiantaethau partner, fod plant a gedwir dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl, yn cael eu cadw yn nalfa’r heddlu dan amgylchiadau eithriadol yn unig;
- ddarparu hyfforddiant i staff cystodaeth i wella eu hymwybyddiaeth o fregusrwydd plant, amddiffyn plant a CSE;
- asesu’r angen am lety amgen yn fuan, ac i weithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i sicrhau trosglwyddiadau ble fo angen hyn; ac
- sicrhau bod staff y ddalfa’n cofnodi pob gweithred a phenderfyniad gyda rhesymeg glir os cedwir plant yn nalfa’r heddlu ac yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol, gan gwblhau tystysgrifau dalfa ble fo angen.

## O fewn chwe mis

Argymhellwn y dylai Heddlu Dyfed-Powys gymryd camau i sicrhau bod yr holl swyddogion a staff sy’n delio â phryder am blant yn ymwybodol o gynlluniau amddiffyn plant a bod yr wybodaeth hon yn hysbysu eu hymatebion ac asesiadau risg.

Argymhellwn fod Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn hygyrch, naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, i bob swyddog sy’n delio ag achosion ble ceir pryderon am les plant.

Rydym yn argymell y dylai Heddlu Dyfed-Powys sicrhau:

- bod pob aelod o staff yn cofnodi barnau a phryderon plant ac unrhyw ddeilliannau sydd ar gael ar ddiwedd gwaith yr heddlu ar achos; ac
- y darperir gwybodaeth am anghenion a barnau plant ar gyfer ystyriaeth gan gomisiynydd yr heddlu a throseddu yn rheolaidd, ac i reolwyr gwasanaeth i hysbysu arfer yn y dyfodol.

## 9. Camau nesaf

O fewn chwech wythnos i gyhoeddi’r adroddiad hwn, bydd HMIC yn gofyn am ddiweddariad o’r camau sy’n cael eu gweithredu i ymateb i’r argymhellion y dylid gweithredu arnynt ar unwaith.

Dylai Heddlu Dyfed-Powys hefyd ddarparu cynllun gweithredu o fewn chwech wythnos i nodi sut mae’n bwriadu ymateb i’r argymhellion eraill a wnaethpwyd yn yr adroddiad hwn.

Yn amodol ar yr ymatebion a dderbynnir, bydd HMIC yn edrych eto ar yr heddlu yn ddim hwyrach na chwe mis wedi cyhoeddi’r adroddiad hwn i asesu sut mae’n rheoli gweithrediad yr holl argymhellion.

# Atodiad A
# Methodoleg yr archwiliad amddiffyn plant

## Amcanion

Amcanion yr archwiliad yw:

- asesu pa mor effeithiol yw heddluoedd o ran diogelu plant sydd dan risg;
- gwneud argymhellion i heddluoedd ar gyfer gwella arferion amddiffyn plant;
- amlygu arferion effeithiol o ran gwaith amddiffyn plant; ac
- ysgogi gwelliannau yn arferion amddiffyn plant heddluoedd.

Sefydlir disgwyliadau asiantaethau yn y canllaw statudol Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004[25]. Y rolau heddlu penodol a gyflwynir yn y canllaw yw:

- nodi plant allai fod dan risg o gam-drin ac esgeulustod;
- ymchwilio i droseddau honedig yn erbyn plant;
- gwaith rhyngasiantaethol a rhannu gwybodaeth i amddiffyn plant; ac
- arfer pwerau argyfwng i amddiffyn plant.

Dyma'r meysydd ymarfer sy'n ffocws i'r archwiliad.

## Ymagwedd archwilio

Roedd archwiliadau yn ffocysu ar brofiad a chanlyniadau i'r plentyn yn dilyn ei daith trwy brosesau amddiffyn plant ac ymchwiliadau troseddol. Fe wnaethant asesu pa mor dda oedd y gwasanaeth wedi helpu a diogelu plant ac ymchwilio i weithredoedd troseddol honedig, gan ystyried, ond heb fesur cydymffurfiad â, polisïau a chanllaw.

Ystyriodd yr archwiliadau sut oedd y trefniadau i ddiogelu plant, ac arweinyddiaeth a rheolaeth gwasanaeth yr heddlu, wedi cyfrannu i a chefnogi arfer effeithiol yn ymarferol. Fe ystyriodd y tîm pa mor dda y bodlonwyd cyfrifoldebau rheoli ar gyfer amddiffyn plant, fel y sefydlwyd yn y canllaw statudol.

[25] Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2007 (diweddariad diwethaf), ar gael gan: http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/safeguardingunder2004act/?lang=cy

## Dulliau

- Hunanasesu – arferion, a rheolaeth ac arweinyddiaeth.
- Archwiliadau achos.
- Trafodaethau gyda staff yn yr heddlu a gan asiantaethau eraill.
- Adroddiadau archwilio ar adolygiadau achos arwyddocaol neu achosion difrifol eraill.
- Archwiliad o ystadegau gwasanaeth, adroddiadau, polisïau a deunyddiau ysgrifenedig perthnasol eraill.

## Diben yr hunanasesiad yw:

- codi ymwybyddiaeth yn y gwasanaeth o gryfderau a gwendidau arferion presennol (roedd hyn yn sail i drafodaethau gyda HMIC); a
- bod yn ysgogydd a meincnod ar gyfer gwelliannau gwasanaeth yn y dyfodol.

## Hunanasesiad ac archwiliad ar achosion

Mewn ymgynghoriad â gwasanaethau'r heddlu, mae'r meysydd ymarfer canlynol wedi eu nodi ar gyfer craffu:

- cam-drin domestig;
- digwyddiadau ble mae swyddogion yr heddlu a staff yn nodi plant sydd angen help ac amddiffyniad, e.e. plant sy'n cael eu hesgeuluso;
- rhannu gwybodaeth a thrafodaethau parthed plant allai fod dan risg o niwed;
- arfer grymoedd amddiffyn yr heddlu dan adran 46 y Ddeddf Plant 1989 (mynd â phlant i 'le diogel');
- cwblhau ymholiadau Adran 47 Deddf Plant 1989, yn cynnwys rhai o natur droseddol a'r rhai nad ydynt o natur droseddol (mae ymholiadau Adran 47 yn rhai sy'n ymwneud â phlentyn 'mewn angen' yn hytrach na phlentyn 'dan risg');
- rheoli troseddwyr rhyw;
- rheoli plant sydd ar goll;
- camfanteisio'n rhywiol ar blant; a
- chadw plant yn nalfa'r heddlu.

Isod ceir dadansoddiad o’r mathau o achosion a hunanaseswyd a archwiliwyd gennym yn Heddlu Dyfed-Powys.

| **Math o achos** | **Nifer o achosion** |
|---|---|
| Ymholiad amddiffyn plentyn (a. 47) | 5 |
| Cam-drin domestig | 5 |
| Pryderon cyffredinol am blentyn ble atgyfeiriwyd y mater at wasanaethau gofal cymdeithasol plant | 5 |
| Ymholiad troseddwr rhyw | 3 |
| Plant sydd ar goll | 3 |
| Amddiffyniad yr heddlu | 3 |
| Dan risg o gamfanteisio rhywiol | 3 |
| Cam-drin rhywiol ar-lein | 3 |
| Plentyn yn y ddalfa | 3 |

# Atodiad B
# Geirfa

| | |
|---|---|
| plentyn | unigolyn dan 18 oed |
| cynhadledd asesiad risg amlasiantaethol (MARAC) | cyfarfod a gynhelir yn lleol ble daw cynrychiolwyr asiantaethau statudol a gwirfoddol ynghyd i rannu gwybodaeth am ddioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig; gall unrhyw asiantaeth gyfeirio oedolyn neu blentyn y creda i fod dan risg uchel o niwed; nod y cyfarfod yw i gynhyrchu cynllun gweithredu cydlynol i hybu diogelwch, iechyd a lles oedolyn neu blentyn; bydd yr asiantaethau sy'n mynychu yn amrywio ond mae'n debygol y byddant yn cynnwys, er enghraifft: yr heddlu, gwasanaethau prawf, plant, iechyd a thai; mae dros 250 yn weithredol ar draws Cymru a Lloegr ar hyn o bryd |
| canolfan ddiogelu amlasiantaethol (MASH) | endid ble mae sefydliadau sector cyhoeddus sydd â chyfrifoldebau cyffredin neu wedi alinio parthed diogelwch pobl fregus yn gweithio; mae'r canolfannau yn cynnwys staff o sefydliadau megis yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol; maent yn gweithio gyda'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth a chydlynu gweithgareddau i helpu diogelu'r plant ac oedolion mwyaf bregus rhag niwed, esgeuluso a cham-drin |

| | |
|---|---|
| trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (MAPPA) | trefniadau a sefydlwyd yn y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 i asesu a rheoli'r risg a gyflwynir gan droseddwyr rhyw a threisgar penodol; yn gofyn i asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a chyrff eraill sy'n delio â throseddwyr gydweithio mewn partneriaeth i leihau'r risg o droseddu treisgar neu rywiol difrifol pellach gan y troseddwyr hyn |
| comisiynydd yr heddlu a throseddu (PCC) | endid etholedig ar gyfer ardal heddlu, a sefydlwyd dan adran 1, Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, sy'n gyfrifol am sicrhau cynhaliaeth yr heddlu ar gyfer yr ardal honno a sicrhau fod yr heddlu yn effeithiol ac effeithlon; yn dal y prif gwnstabl perthnasol yn atebol am blismona'r ardal; yn sefydlu'r gyllideb a chynllun heddlu a throseddu ar gyfer yr heddlu; yn penodi a gallai, wedi dilyn y drefn briodol, ddiddymu'r prif gwnstabl o'i swydd |
| troseddwr rhyw cofrestredig | unigolyn sy'n gorfod rhoi ei fanylion i'r heddlu am ei fod wedi ei gollfarnu neu gael rhybudd am drosedd rhyw fel y sefydlwyd yn Atodlen 3 i'r Ddeddf Troseddau Rhyw 2003, neu am ei fod wedi achosi'r gofynion hysbysu mewn unrhyw ffordd arall (er enghraifft, trwy fod yn destun gorchymyn atal troseddau rhyw); yn ogystal â manylion personol, rhaid i unigolyn cofrestredig roi manylion am ei symudiadau i'r heddlu, er enghraifft, rhaid iddo ddweud wrth yr heddlu os yw'n mynd dramor ac, os yw'n ddigartref, ble gellir dod o hyd iddo; gall yr heddlu, gwasanaeth prawf a gwasanaeth carchardai gael mynediad at fanylion cofrestredig |